

Cyngor Cymuned Llanelian (263)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mawrth 3ydd, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Carol Whitaker John Griffiths	Helen Hughes T Elfyn Hughes Gordon Hayes	David Gerrard Glenys Jones Thomas D Jones
Ymddiheuriadau:	Cyng. Aled Morris Jones		

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

Glenys Jones – Cynllunio Rhoswen
Thomas D Jones – Cynllunio Tynrhos Fawr

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Gordon Hayes, pawb yn gytûn.

4 Materion yn Codi

4.1 Golau ger y Neuadd –

Bydd costau cynnal y golau i'w cyflwyno i Bwyllgor y neuadd yn eu cyfarfod nesaf, a bydd Elfyn Hughes yn cadarnhau a'r Clerc pa olau sydd wedi ei ddewis er mwyn trefnu bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosib. Pawb yn cytuno bod y Cyngor yn talu am osod y golau, a'r neuadd yn talu am ei gynnal.

EH /
CET

4.2 Ffos ger Tŷ Canol –

Cafwyd e-bost gan yr adran briffyrdd yn cadarnhau'r hyn a ddywedwyd yn eu cyfarfod. Cytuno bod copi o'r e-bost ar gael i unrhyw un sy'n cwyno i'r cyngor cymuned ac / neu yn cael damwain yno.

4.3 Lon Dywyll –

Cafwyd e-bost gan yr adran briffyrdd yn cydnabod cyflwr gwael y lon. Carol Whitaker i gadarnhau os yw'r lon yn cael ei ddefnyddio gan fws Ysgol. Os ydi, cytuno dylid cysylltu eto a'r adran er mwyn pwysleisio'r angen i'r gwaith gael ei gwblhau cyn gynted â phosib.

CW /
CET

4.4 Carafanau -

Wedi edrych ar y sefyllfa, mae'r adran gynllunio wedi penderfynu nad oes achos o dorri rheolau. Cynigwyd bod unrhyw un sydd am gwyno amdanynt yn cysylltu yn uniongyrchol a'r adran gynllunio, a bod copi o'r e-bost ar gael er gwybodaeth.

4.5 Cofrestrfa Tir –

Mae dogfennau cyfreithiol Gardd Top Rallt (1-2 Catherine Terrace) a chae chwarae Lon Tyddyn Waen wedi dod i law. Cytuno dylid parhau i'w cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir er mwyn diogelu'r wybodaeth.

CET

5 Cynllunio

5.1 Ceisiadau –

Cafodd pedwar cais eu cyflwyno a'u trafod fel y ganlyn –

- Rhoswen – cefnogi
- Plot 2, Cerrigman – dim sylw
- Tynrhos Fawr – dim sylw
- Tynrhos Fawr – dim sylw

5.2 Penderfyniadau -

Cafwyd wybod bod y ceisiadau canlynol wedi bod yn llwyddiannus -

- Gorwel Las
- Plot 1 Glanllyn

6 Materion Ariannol

6.1 Taliadau –

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
John Roberts – archwiliad 2012/13 £80.00
John Roberts – archwiliad 2013/14 £85.00
WE Jones – llwybrau'r fynwent £8348.40

6.2 Trefniadau Bancio

Cafwyd esboniad gan y clerch o'r sefyllfa bresennol gyda banc Nat West a'r broblem sydd wedi dod i'r wyneb wrth geisio trosglwyddo arian i dalu anfoneb. Mae'n debyg nad yw'r banc wedi diweddarau'r

wybodaeth yn gywir pan newidiwyd y rhai sy'n arwyddo sieciau ar ran y cyngor (Carli Evans-Thau, Thomas D Jones a Hefina Williams). Roedd pawb yn hapus i'r unigolion yma barhau a chwblhawyd y gwaith papur angenrheidiol eto. Cytuno dylai'r Cadeirydd anfon llythyr o gŵyn i'r gangen leol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r risg i arian cyhoeddus.

7 Giât y Fynwent

Cafwyd wybod gan y Clerc na does gan yr archifdy yn Llangefni unrhyw ddogfennau yn trafod y giât, na pha bryd y cafodd ei gosod. Nid oes ychwaith unrhyw luniau ohoni. Bydd yn parhau i chwilio am wybodaeth o ffynonellau eraill.

Cafwyd e-bost gan Roy Ashworth mewn ymateb i gael cadw'r giât yn ddiogel yn yr Eglwys. Yn anffodus nid oes lle iddi yno. Fodd bynnag, mae rhannau o'r giât wedi eu tynnu oddi arni er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ei hagar a'i chau.

Yn yr un e-bost, fe dynnwyd sylw at bethau eraill yn y fynwent all fod yn beryglus i aelodau o'r cyhoedd. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda Mr Ashworth a'r Cadeirydd er mwyn trafod ymhellach.

Cytunwyd mai'r Cyngor Cymuned fyddai'n gyfrifol petai unrhyw un yn cael anaf yn y fynwent, felly mae hawl cymryd camau er mwyn diogelwch. Byddai angen cael cadarnhad ysgrifenedig o'r peryglon, a chysylltu â theulu lle bynnag bosib.

8 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Mae sesiynau gwybodaeth i'w cynnal yn lleol dros y dyddiau nesaf os oes unrhyw un a diddordeb mynychu. Os oes unrhyw un ag unrhyw sylwadau ar y ddogfen gofynnwyd iddynt gysylltu â'r clerck er mwyn gallu ymateb i'r ymgynghoriad cyn diwedd Mawrth.

9 Gohebiaeth

9.1 Cafwyd diweddariad gan y pwyllgor safonau yn gofyn am enwebiadau erbyn dechrau mis Tachwedd. Cytuno trafod eto yn nes at y dyddiad cau.

9.2 Cafwyd pecyn gwybodaeth Taith Dros fywyd blynyddol Sefydliad Aren Cymru er gwybodaeth.

9.3 Cafwyd gwybodaeth gan Horizon yn rhoi diweddariad am eu gwaith ar safle Wylfa Newydd.

10 Unrhyw Fater Arall

10.1 Mae Cyngor Tref Amlwch wedi bod mewn cysylltiad yn gofyn am gefnogaeth ynglŷn â datblygiad posib ar safle Shell, Rhosgoch. Deallwyd bod cynghorau cymuned leol eraill yn gefnogol. Ar ôl peth trafod, cytunwyd yn unfrydol y dylid cefnogi y cais i'r Cyngor Sir beidio â brysio i werthu'r safle, ac i annog Horizon i ddatblygu'r safle ar gyfer gweithwyr Wylfa Newydd. Byddai hyn o fudd i'r gymuned yn hir dymor. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer cynrychiolwyr y cynghorau cymuned leol bore Gwener, Mawrth 20 yn Siambr Cyngor Tref Amlwch am 10 o'r gloch. Bydd Elfyn Hughes yn cynrychioli Cyngor Llanelian. EH

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 14/4/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.15 o'r gloch.